# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llanycil

Nos Fawrth, Mai 16eg 2023 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen.

Presennol: Presennol: Huw Charles (cadeirydd), Euros Puw, Gwynfryn Williams, Geraint Jones, Arwel Davies, Rhys Jones, Jean Roberts, Catrin Roberts, Cyng.Elwyn Edwards a'r clerc.

**Croesawyd Catrin Roberts i'w chyfarfod cyntaf.**

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mawrth 14eg 2023) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

## iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.

## iv) Gohebiaeth

a) Cyngor Gwynedd.

i) Holiadur Perfformiad Cyngor Gwynedd – Cyfle i ddweud eich dweud. Gofynnwyd i'r clerc eu gwbwlhau.

b) Parc Cenedlaethol.

i) Adroddiad adolygu draft Cynllun Datblygu Lleol Eryri.
ii) Cronfa Cymunedau Eryri (CCE) 2023-24.
iii) Gweminar Aelodau Cynghorau Cymuned - Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, 8/6/23.

c) Cwmni Pum Plwy Penllyn.

**i) Diweddariad – trafodwyd cais gan yr Heddlu i gael camera cylch cyfyng wrth yr Orsaf Dan i arswyli traffig yn mynd i fewn ac allan o'r dre. Cytunwyd yn unfrydol fod hyn yn syniad da, yn enwedig ar ol yr achosion o ladrata yn ddiweddar. Cytunwyd i gyfrannu arian tuag at y cynllun os byddai angen.**

## v) Ceisiadau Cynllunio.

NP5/72/1D – Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer allanol ar ochr yr annedd. Fron Feuno, Llanycil.
**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiadau lleol.**

## vi) Materion Ariannol

a) Praesept - £2,250
b) The Pension Regulator – **y clerc wedi cwblhau'r broses ail gofrestru priodol.**
c) Archwiliad Blynyddol - **roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r cyngor. Oherwydd pwysau gwaith nid oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi gyhoeddi'r hysbysiad archwilio ar hyn o bryd.**
ch) Taliadau – Zuirch (yswiriant), Archwilio Cymru (archwilio cyfrifon 2021/22 a 2022/23). **Cymeradwywyd taliad yr yswiriant ond cytunwyd i beidio talu Swyddfa Awrchilio Cymru tan oedd cadarnhad fod y swm a godwyd yn gywir.**

## vii) Materion lleol.

a) **Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH MEHEFIN 13EG YN NEUADD MAESYWAEN.**